**Huw Irranca-Davies AC**
Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant

21 Chwefror 2018

Annwyl Huw

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 15 Chwefror, cytunodd yr Aelodau i'ch gwahodd i sesiwn graffu **rhwng 09:30 a 10:30 ddydd Mercher 18 Ebrill 2018** yn y Senedd ym Mae Caerdydd. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i ganolbwyntio ar **y cynnig gofal plant** gan Lywodraeth Cymru, a'r cynlluniau peilot perthnasol sydd ar y gweill ledled Cymru.


Cyn y sesiwn, byddai'n ddefnyddiol cael papur gennych yn cynnwys gwybodaeth am y materion a ganlyn (ymhlith materion eraill):

- y cynnydd diweddaraf o ran y cynlluniau peilot;
- y dulliau sy'n cael eu mabwysiadu i fonitro canlyniadau a gwerth am arian;
- y gwersi cynnar o'r cynlluniau peilot a'r ffordd rydych yn ymateb iddynt;
- cynlluniau yn y dyfodol i gyflwyno'r cynllun yn fwy eang, gan gynnwys:
  - y camau perthnasol sy'n cael eu cymryd o ran cyllid a deddfwriaeth i baratoi'r ffordd ar gyfer datblygu'r cynllun;
  - yr amserlen ar gyfer gweithredu'r cynllun yn llawn, gan gynnwys pryd y bydd canllawiau ar gael;
  - y farn gyfredol am y gost flynyddol lawn pan fydd y cynllun wedi'i weithredu'n llawn;
  - yr asesiad cyfredol o gapasiti'r sector i ddarparu'r nifer o oriau o ofal plant sydd eu hangen ar gyfer gweithredu'r cynllun yn llawn, gan gynnwys capasiti o ran y Gymraeg; a
  - p'un a ellid ehangu'r rhestr o ddarparwyr i gynnwys y rheiny sydd wedi'u cymeradwyo fel gofalwyr plant gan Arolygiaeth Gofal Cymru o

dan ei Chynllun Cymeradwyo Gwirfoddol, yn ychwanegol at y rheini sydd wedi'u cofrestru fel gwarchodwyr plant.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael y papur erbyn **dydd Mercher 4 Ebrill 2018**.

Yn gywir,



**Lynne Neagle AC**
**Cadeirydd**